OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 299 (Cy.6)

# ARDRETHU, CYMRU

## Gorchymyn Ymgymerwyr Dŵ r (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000

*Wedi'i wneud - - 31 Ionawr 2000*

*Yn dod i rym 1 Ebrill 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraff 3(2) o Atodlen 6 iddi ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymgymerwyr Dŵr (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "blwyddyn" ("*year*") yw blwyddyn ariannol daladwy ;

ystyr "blwyddyn berthnasol"*("relevant year")* yw unrhyw flwyddyn y mae gwerth ardrethol i'w benderfynu arno yn unol â'r Gorchymyn hwn ac ystyr "blwyddyn flaenorol berthnasol" yw'r flwyddyn sy'n dod cyn blwyddyn berthnasol;

ystyr "dosbarth ar hereditamentau"("*a class of hereditaments*") yw'r hereditamentau hynny sydd i'w dangos ar y rhestr ardrethu canolog i Gymru yn rhinwedd rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau Rhestr Ganolog a Rhan 6 o'r Atodlen iddynt ac a feddiennir gan unrhyw un o'r personau dynodedig a enwir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn

Ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ;

ystyr "ffactor ailgyfrif"("*recalculation factor*") mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau yw'r ffactor y penderfynir arno mewn perthynas â'r dosbarth hwnnw yn unol ag erthygl 7;

(**1**) 1988 p.41; diwygiwyd 143(2) gan baragraff 72(2) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Diwygiwyd paragraff 3(2) o Atodlen 6 gan baragraff 38(13) o Atodlen 5 i Ddeddf 1989. Gweler adran 146(6) o Ddeddf 1988 am ddiffiniad o "prescribed".

(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

ystyr “y fformwla safonol”(“*the standard formula*”) yw'r fformwla T + U lle —

(a) T yw'r swm a bennir mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau yn yr Atodlen; a

(b) U yw'r ffactor ailgyfrif cymwysadwy i'r dosbarth hwnnw mewn perthynas â'r flwyddyn berthnasol;

ystyr “person dynodedig”(“*designated person*”) yw person a ddynodir gan reoliad 3(1) o'r Rheoliadau Rhestr Ganolog ac a enwir yn Rhan 6 o'r Atodlen iddynt; ac mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau, ystyr “person dynodedig perthnasol” yw'r person dynodedig sy'n meddiannu'r dosbarth hwnnw; ac

ystyr “Rheoliadau Rhestr Ganolog”(“*Central List Regulations*”) yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999(**3**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at hereditamentau a feddiennir gan berson yn cynnwys cyfeiriad, yn achos hereditamentau nas meddiennir, at hereditamentau a berchnogir gan y person hwnnw gan ddehongli cyfeiriadau at feddiannaeth yn unol â hynny.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn, neu yn yr Atodlen, at berson dynodedig wrth ei enw yn gyfeiriad at y cwmni sy'n dwyn yr enw hwnnw ar y dyddiad y cofnodir yr enw hwnnw ar y rhestr ardrethu canolog i Gymru.

### Talgrynnu rhifau

**3.** Pan (ar wahân i'r erthygl hon) fydd unrhyw werth ardrethol y penderfynir arno o dan y Gorchymyn hwn yn cynnwys ffracsiwn o bunt—

(a) rhaid talgrynnu'r ffracsiwn i un bunt, os bydd yn fwy na 50c, a

(b) rhaid anwybyddu'r ffracsiwn os bydd yn 50c neu'n llai.

### Diddymiadau ac eithriadau

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) mae Gorchymyn Ymgymerwyr Dŵr (Gwerthoedd Ardrethol) 1994(**4**) wedi'i ddiddymu gydag effaith o 1 Ebrill 2000 i'r graddau ei fod yn gymwys i Gymru.

(2) Heb ragfarnu adran 16(1) o Ddeddf Ddehongli 1978(**5**), bydd darpariaethau'r Gorchymyn a grybwyllir ym mharagraff (1) yn parhau'n weithredol ar 1 Ebrill 2000 ac ar ôl hynny, at ddibenion y canlynol ac mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) unrhyw newid ar restr mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2000; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth a wneir gan reoliadau a wneir o dan adran 58(**6**) o'r Ddeddf (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ymlaen) o ran y swm taladwy ar gyfer hereditament am gyfnod perthnasol yn ôl diffiniad yr adran honno.

### Gwerthoedd ardrethol

**5.** Yn achos pob dosbarth ar hereditamentau, ni fydd paragraffau 2 i 2B o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn gymwys mewn unrhyw flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny a'i werth arderthol fydd–

(a) yn y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000, y swm a bennir mewn perthynas ag ef yn yr Atodlen ; a

(**3**) O.S. 1999/3453
(**4**) O.S. 1994/3285
(**5**) 1978 p.30.
(**6**) Diwygiwyd adran 58 gan baragraff 68 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1989 (p. 14), adran 2 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 1994 (p.3) ac adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p.29).

(b) mewn unrhyw flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001 neu ar ôl hynny (yn ddarostyngedig i erthygl 10) y swm a gynhyrchir mewn perthynas â'r flwyddyn honno drwy ddefnyddio'r fformwla safonol mewn perthynas â'r dosbarth hwnnw.

**Y ffactor ailgyfrif – dehongli**

**6.**—(1) Yn erthygl 7 mewn perthynas â phob dosbarth ar hereditamentau—

(a) mewn unrhyw fformwla—

“y” yw'r cyfaint perthnasol o ddŵr mewn perthynas â'r cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben yn union cyn y flwyddyn berthnasol flaenorol;

“Y”, yn ddarostyngedig i erthygl 7(3), yw'r cyfaint perthnasol o ddŵr mewn perthynas â'r cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 1999; a

Rhif yw “Z” ac iddo'r un gwerth ag “y” yn y flwyddyn flaenorol ddiwethaf y penderfynwyd ar y ffactor ailgyfrif cymwysadwy i'r dosbarth hwnnw mewn perthynas ag ef yn unol ag erthygl 7(2); a

(b) ystyr “cyfaint perthnasol o ddŵr” mewn perthynas â pherson dynodedig perthnasol ac unrhyw gyfnod o dair blynedd yw'r cyfaint a gyfrifir yn unol â pharagraff (2).

(2) Y cyfaint perthnasol o ddŵr mewn perthynas â pherson dynodedig perthnasol ac unrhyw flwyddyn yw'r cyfartaledd blynyddol, dros y tair blynedd o dan ystyriaeth, wedi'i fynegi mewn megalitrau i'r ddegfed ran agosaf o fegalitr, o'r swm a amcangyfrifir yn unol ag is-baragraff (a) wedi tynnu'r swm a amcangyfrifwyd yn unol ag is-baragraff (b); sef—

(a) y cyfaint blynyddol o ddŵr yr amcangyfrifir iddo gael ei gyflenwi gan y person hwnnw yn ystod y cyfnod o dair blynedd, sef dŵr a gyflenwyd i—

(i) unrhyw berson arall mewn swmp-gyflenwad, sef at ddibenion ffurfio'r cyflenwad sydd i'w roi gan y person hwnnw neu ychwanegu ato; a

(ii) fel arall,

a thynnu hanner y swm blynyddol cyfartalog o ddŵr anyfadwy yr amcangyfrifir ei fod wedi cael ei gyflenwi mewn dull heb fod yn swmp-gyflenwad; a thynnu

(b) hanner y swm blynyddol cyfartalog yr amcangyfrifir ei fod wedi'i gymryd neu wedi'i swmp-gyflenwi yn ystod y cyfnod hwnnw o dair blynedd.

(3) Os na chyflenwodd y person dynodedig perthnasol ddŵr drwy gydol unrhyw flwyddyn mewn cyfnod o dair blynedd, bydd paragraff (2) yn gymwys fel pe rhoddid cyfeiriad at y cyfartaledd blynyddol dros y nifer o flynyddoedd y cyflenwyd y dŵr ynddynt yn lle'r cyfeiriad at y cyfartaledd blynyddol dros dair blynedd; ac at ddibenion y paragraff hwn diystyrir unrhyw doriad dros dro yn y cyflenwad.

**Ffactorau ailgyfrif**

**7.**—(1) Os, mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau ac unrhyw flwyddyn, bydd y gwerth y gellir ei briodoli i “y” yn llai na'r hyn a gynhyrchir drwy gyfrif yn unol â'r fformwla—

$$Y\left(\frac{102}{100}\right)$$

(“y trothwy uchaf”) ac yn fwy na'r hyn a gynhyrchir drwy gyfrif yn yn unol â'r fformwla—

$$Y\left(\frac{98}{100}\right)$$

(“y trothwy isaf”), bydd y ffactor ailgyfrif cymwysadwy i'r dosbarth hwnnw—

(a) yn y flwyddyn gyntaf o'r fath yn 0, a

(b) yn ystod unrhyw flwyddyn ganlynol, yn ffigur hafal i'r ffactor ailgyfrif cymwysadwy yn unol â'r erthygl hon yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.

(2) Os, mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn, bydd y gwerth y gellir ei briodoli i "y" mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau yn hafal i'r trothwy uchaf neu'n fwy nag ef neu'n hafal i'r trothwy isaf neu'n is nag ef, bydd y ffactor ailgyfrif cymwysadwy i'r dosbarth hwnnw yn ystod y flwyddyn honno yn ffigur a gynhyrchir drwy gyfrif yn unol â'r fformwla—

$$T \cdot \left( \frac{y - Y}{1.5Y} \right)$$

(3) Mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau a blwyddyn sy'n dechrau ar ôl y blwyddyn y bydd paragraff (2) yn gymwys i'r dosbarth hwnnw yn gyntaf, bydd paragraff (1) yn gymwys fel pe rhoddid Z yn lle Y.

### Achosion arbennig – dehongli

**8.** Mewn perthynas ag erthyglau 9 a 10—

ystyr "cynllun Atodlen 2" ("*Schedule 2 scheme*") yw cynllun o dan Atodlen 2 i Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991;

ystyr "hereditamentau Cymru" ("*Welsh hereditaments*") yw'r hereditamentau cynllun ac unrhyw hereditamentau eraill a feddiennir gan drosglwyddai cynllun ac a ddangosir yn y rhestr ardrethu canolog i Gymru;

ystyr "hereditamentau cynllun" ("*scheme hereditaments*") yw hereditamentau a drosglwyddir gan gynllun Atodlen 2; ac

ystyr "trosglwyddai cynllun"("*scheme transferee*") yw person dynodedig sydd, o ganlyniad i gynllun Atodlen 2, yn meddiannu dosbarth ar hereditamentau sydd, yn union cyn y diwrnod pan ddaw'r cynllun i rym, yn cael ei feddiannu gan berson dynodedig arall.

### Cymhwyso

**9.** Mae erthygl 10 yn gymwys at ddibenion penderfynu, mewn perthynas ag unrhyw ddiwrnod pan, yn unol â'r Rheoliadau Rhestr Ganolog, y dangosir hereditamentau Cymru a feddiennir gan drosglwyddai cynllun ar y rhestr ardrethu canolog, ar werth ardrethol (cyfan) hereditamentau Cymru.

### Penderfynu ar Werthoedd Ardrethol

**10.**—(1) Rhaid i werth ardrethol (cyfan) hereditamentau Cymru fod yn swm hafal i'r cyfanswm o'r symiau y penderfynasid arnynt, ond am gynllun Atodlen 2, ac yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, yn unol ag erthygl 5 fel gwerth ardrethol yr hereditamentau sy'n ffurfio hereditamentau Cymru.

(2) At ddibenion penderfynu ar y ffactor ailgyfrif sy'n gymwysadwy mewn blwyddyn berthnasol, bydd erthygl 7 yn gymwys fel pe anwybyddid, wrth gyfrif y swm a neilltuir i Y neu, mewn achos pan fydd erthygl 7(3) yn gymwys, y rhif a neilltuir i Z, ddŵr a gyflenwyd gan y trosglwyddai cynllun neu iddo i barti arall i gynllun Atodlen 2 neu ganddo.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

31 Ionawr 2000D.

(**7**) 1998 p.38

## ATODLEN

Hereditamentau a feddiennir gan:

| | |
|---|---|
| Dee Valley Water plc | £1,798,244 |
| Dŵ r Cymru Cyfyngedig | £29,730,304 |
| North West Water Limited | £874,556 |
| Severn Trent Water Limited | £4,048,616 |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O ran yr hereditamentau annomestig sydd i'w dangos ar y rhestr ardrethu canolog i Gymru, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan baragraff 3(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ddarparu, drwy orchymyn, nad yw'r rheolau prisio arferol ar gyfer ardrethu a gynhwysir ym mharagraffau 2 i 2B o'r Atodlen honno yn gymwys i'r hereditamentau hynny. Yn lle hynny, caiff ddarparu y bydd gwerthoedd ardrethol y hereditamentau hynny fel y'u pennir yn y gorchymyn neu fel y penderfynir arnynt yn unol â rheolau rhagnodedig. Breiniwyd y pwerau hyn bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i hereditamentau cyflenwi dŵ r a feddiennir (neu, os na feddiennir hwy, a berchnogir) gan ymgymerwyr dŵ r a enwir yn Rhan 6 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hynny gael eu dangos yn y rhestr ardrethu canolog i Gymru. Mae'r Gorchymyn hwn:

* yn darparu na fydd paragraffau 2 i 2B yn gymwys mewn perthynas â'r hereditamentau hynny ,

* yn rhagnodi'r gwerthoedd ar gyfer yr hereditamentau hynny am y flwyddyn ariannol 2000/01 ac

* yn rhagnodi'r rheolau y mae eu gwerthoedd ardrethol i gael eu penderfynu arnynt yn unol â hwy yn y blynyddoedd i ddod.

Mae erthygl 4(1) yn diddymu Gorchymyn Ymgymerwyr Dŵr (Gwerthoedd Ardrethol) 1994, gydag effaith o 1 Ebrill 2000 ymlaen, i'r graddau ei fod yn gymwysadwy i Gymru. Ond mae'r darpariaethau hynny yn parhau i fod yn weithredol at y dibenion a grybwyllir yn erthygl 4(2).